Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Tywyn
# Ty Mabon
# Tywyn
# Gwynedd
# LL36 9ET

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/07/14**

## Cyd-destun

Meithrinfa cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Tywyn sy'n rhan o ddarpariaeth Mudiad Ysgolion Meithrin a Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd. Sefydlwyd y feithrinfa ym 1975 ac mae wedi'i lleoli mewn caban ar dir yr ysgol uwchradd ers 1986. Daw bron pob plentyn sy'n mynychu'r lleoliad o Dywyn ei hun. Saesneg yw prif iaith llawer o'r plant yn y cartref gydag ond ychydig iawn yn dod o aelwydydd Cymraeg.

Mae 22 o blant yn mynychu'r lleoliad ac, o'r rhain, mae pedwar ohonynt wedi'u hariannu gan y Bartneriaeth. Cynhelir sesiwn o dair awr bob bore'r wythnos gyda lleiafrif yn aros ymlaen am awr ychwanegol. Nid yw pob plentyn yn mynychu'r holl sesiynau.

Caiff y lleoliad ei staffio gan ddau gyd-arweinydd ac un cymhorthydd dysgu. Daw plant o bob gallu a chefndir cymdeithasol i'r lleoliad ac mae ychydig iawn ag anghenion dysgu ychwanegol. Ar hyn o bryd, nid oes plant o dras ethnig yn mynychu'r lleoliad.

Mae'r plant yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd leol y tymor ar ôl iddynt gael eu pedair oed ac yno maent yn parhau i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn Rhagfyr 2013 a chan Estyn yn Rhagfyr 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn anfoddhaol. Cryfderau'r lleoliad yw bod:

- ymarferwyr yn gwneud defnydd da o ymweliadau i gyfoethogi profiadau'r plant;
- cyfleoedd da i blant ddysgu am fwyta'n iach;
- cyfleoedd i blant ddysgu am bwysigrwydd cynaliadwyedd trwy ailgylchu gweddillion ffrwyth a phapur o fewn y dosbarth yn dda a chyson; ac mae
- strategaethau effeithiol yn eu lle i sicrhau bod plant yn ymgynefino'n gyflym ac yn teimlo'n ddiogel.

Fodd bynnag mae'r meysydd pwysig sydd angen eu gwella yn gorbwyso cryfderau'r lleoliad oherwydd:

- nid yw'r lleoliad yn rhoi digon o gyfleoedd cyfoethog i blant ddatblygu medrau cynnar llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);
- nid yw cynllunio'r ymarferwyr yn ddigon trylwyr nac wedi ei wahaniaethu;
- nid yw'r plant yn cael eu herio'n ddigonol, yn arbennig y plant mwy galluog;
- nid yw'r ymarferwyr yn esbonio'n ddigon clir na chyson yr hyn y maent yn disgwyl i'r plant ei wneud ar ddechrau pob gweithgaredd;
- nid yw'r ymarferwyr yn gwneud defnydd digon cyson o holi pwrpasol er mwyn ennyn chwilfrydedd naturiol y plant a datblygu eu medrau llafar Cymraeg;
- nid yw'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn ddigon da;
- nid yw'r prosesau asesu newydd wedi cael amser i wreiddio na chael effaith gadarnhaol ar safonau plant na'r ddarpariaeth; ac
- nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder difrifol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn anfoddhaol. Cryfderau'r lleoliad yw bod:

- arweinwyr wedi llwyddo i greu awyrgylch cartrefol lle mae'r plant yn hapus, a lle mae ymarferwyr ar y cyfan yn cydweithio'n hwylus;
- y lleoliad yn gwneud defnydd da o gyfryngau cymdeithasol i drosglwyddo gwybodaeth ddiweddaraf i rieni am ddigwyddiadau; ac
- trefniadau pontio gyda'r cylch Ti a Fi a'r ysgol gynradd leol yn effeithiol ac yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n gyflym wrth drosglwyddo o un lleoliad i'r llall.

Fodd bynnag mae'r meysydd pwysig sydd angen eu gwella yn gorbwyso cryfderau'r lleoliad oherwydd:

- nid yw'r arweinwyr wedi llwyddo i wireddu gweledigaeth y lleoliad na'i hyrwyddo'n llwyddiannus;
- nid yw'r arweinwyr wedi llwyddo i gwrdd â llawer o argymhellion yr arolygiad blaenorol;
- nid yw ymarferwyr yn mynychu hyfforddiant yn ddigon cyson;
- nid yw'r cyd-arweinwyr yn cyflwyno adroddiadau i'r pwyllgor rheoli;
- nid yw dealltwriaeth yr arweinwyr o'r broses gwella ansawdd yn ddigon da;
- nid oes cynllun datblygu gan y lleoliad i nodi blaenoriaethau gwella'r cylch; ac
- nid oes gan yr arweinwyr brosesau effeithiol ar gyfer rheoli ac adolygu gwariant.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd cyfoethog a chyson i blant ddatblygu medrau cynnar llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y chwe maes dysgu

A2 Gwella asesu, cynllunio ac addysgu'r ymarferwyr er mwyn sicrhau darpariaeth dda sy'n arwain at godi safonau

A3 Sicrhau bod trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion

A4 Sicrhau bod yr holl staff yn mynychu hyfforddiant er mwyn gwella eu dealltwriaeth o ddarpariaeth, addysgu a rheolaeth

A5 Ffurfio pwyllgor rheoli sy'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt

A6 Gwella prosesau hunan arfarnu y lleoliad a chreu cynllun sy'n canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau ar gyfer gwelliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Rwyf fi o'r farn, ac mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yn cytuno, bod angen gwelliant â ffocws mewn perthynas â'r lleoliad hwn. Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dd/B |
|---|---|

**Safonau: Dd/B**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dd/B**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

Mae dealltwriaeth yr ymarferwyr o ofynion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n raddol iawn, ac maent yn ceisio sicrhau bod y plant yn derbyn profiadau priodol o fewn y chwe maes dysgu. Serch hynny, nid yw'r cynllunio wythnosol yn ddigon trylwyr. O ganlyniad, nid yw'r plant yn cael eu hymestyn yn ddigonol. Nid yw'r cynllunio ychwaith yn cael ei wahaniaethu i ddangos beth sy'n berthnasol i'r plant o ddwy i bedair oed ac mae hyn yn llesteirio datblygiad y plant.

Nid yw'r lleoliad yn rhoi digon o gyfleoedd cyfoethog i blant ddatblygu medrau cynnar llythrennedd a rhifedd. Trwy hunangofrestru bob bore, mae ychydig o blant yn dechrau adnabod eu henwau. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r plant yn cael cyfleoedd i wneud hyn yn annibynnol. Mae pob ymarferwr yn gwneud defnydd da o Gymraeg achlysurol trwy roi cyfarwyddiadau a gorchmynion syml. Serch hynny, nid ydynt i gyd yn ddigon hyderus wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg y tu allan i'r sefyllfaoedd hyn ac nid ydynt yn annog plant i wneud digon o ddefnydd o'r Gymraeg trwy ymateb. Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i blant ganu ystod eang o ganeuon a rhigymau ond nid ydynt yn llwyddo i gael y mwyafrif helaeth o'r plant i ymateb yn frwdfrydig i hyn. Prin iawn yw'r cyfleoedd i blant wrando ac ymateb i storïau sy'n cael eu darllen ac, o ganlyniad, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i glywed yr iaith Gymraeg. Nid yw'r plant yn cael eu hannog i gyfrif yn ddigon cyson ac mae hyn yn llesteirio dealltwriaeth y plant o rif.

Nid yw'r cynllunio yn adnabod cyfleoedd i blant ddatblygu medrau cynnar TGCh nac i ddatrys problemau. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth hon yn anghyson iawn. Prin yw'r cyfleoedd i blant blannu, arsylwi a rhyfeddu ar flodau neu lysiau'n tyfu. Prin hefyd yw'r cyfleoedd i'r plant brofi gweithgareddau parhaus yn yr ardal tu allan ar draws y flwyddyn. Nid yw dealltwriaeth yr ymarferwyr o egwyddorion sylfaenol addysgu yn yr awyr agored yn ddigon cadarn.

Mae ymarferwyr yn dechrau sicrhau bod plant yn cymryd rhan fwy gweithredol yn eu dysgu ac yn derbyn cyfleoedd i wneud dewisiadau am yr hyn y byddent yn hoffi ei wneud yn y sesiynau chwarae rhydd. Mae hyn yn dechrau datblygu hyder ac annibyniaeth gynyddol y mwyafrif o'r plant. Serch hynny, nid yw'r cynllunio ar gyfer chwarae annibynnol nac o dan arweiniad yn ddigon manwl i gefnogi'r dysgu. O ganlyniad, nid yw pob un o'r plant yn parhau ar dasg am gyfnod rhesymol.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o ymweliadau i gyfoethogi profiadau plant. Mae'r defnydd cyson o'r gampfa yn y ganolfan hamdden, a'r gweithgareddau offer mawr, yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu hyder, mentergarwch a medrau corfforol y plant. Mae'r lleoliad hefyd yn trefnu ymweliadau defnyddiol i lyfrgell y dre i ddathlu diwrnod y llyfr ac i gasglu sachau stori neu lyfrau yn ymwneud â'r thema. Mae hyn yn cychwyn magu diddordeb plant tuag at lyfrau.

Mae darpariaeth i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o draddodiadau Cymru yn datblygu yn briodol trwy ddathlu Gŵyl Ddewi a gweithgareddau am yr Urdd. Serch hynny, prin iawn yw'r defnydd o lyfrau gan awduron Cymraeg.

Mae'r cyfleoedd i blant ddysgu am bwysigrwydd cynaliadwyedd trwy ailgylchu gweddillion ffrwyth a phapur o fewn y dosbarth yn dda a chyson. Nid oes cyfleoedd i'r plant ddysgu am ddiwylliannau eraill.

**Addysgu: Anfoddhaol**

Mae'r arweinwyr wedi gosod strategaethau effeithiol yn eu lle i sicrhau bod plant yn ymgynefino'n gyflym ac yn teimlo'n ddiogel. Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i greu perthynas gadarnhaol gyda'r plant, ac o ganlyniad, mae'r plant yn ymddiried ynddynt. Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad yn llwyddiannus er bod ychydig o blant yn aflonyddu ac ychydig iawn yn cael anhawster i rannu neu aros eu tro.

Serch hynny, nid yw dealltwriaeth yr ymarferwyr o ofynion y Cyfnod Sylfaen yn ddigon cadarn. Mae ystod ac ansawdd dulliau addysgu'r ymarferwyr yn rhy gyfyng. Nid yw'r ymarferwyr yn esbonio'n ddigon clir na chyson yr hyn y maent yn disgwyl i'r plant ei wneud. Ni wneir defnydd digon cyson o holi pwrpasol er mwyn ennyn chwilfrydedd naturiol y plant a datblygu eu medrau llafar Cymraeg wrth ymateb. Mae arweinwyr yn darparu canllawiau ysgrifenedig defnyddiol ym mhob ardal addysgol i gynorthwyo ymarferwyr i ddatblygu medrau'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn gwneud defnydd cyson ohonynt. Yn gyffredinol, nid yw'r ymarferwyr yn gwneud digon o ddefnydd o'r iaith Gymraeg ac mae gormod yn troi i siarad Saesneg gyda'r plant. O ganlyniad, nid yw ymarferwyr yn modelu iaith yn ddigon cadarn ac nid yw safonau llafar y plant yn y Gymraeg yn ddigon da.

Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi mabwysiadu gweithdrefnau asesu'r awdurdod lleol. Bellach, mae'r ymarferwyr yn asesu pob plentyn ar fynediad, yn gwneud arsylwadau dyddiol ac yn cadw cofnodion manwl ar ddatblygiad pob plentyn yn y chwe maes dysgu. Fodd bynnag, nid yw hyn eto wedi cael amser i wreiddio na chael effaith gadarnhaol ar safonau. Nid yw'r arweinwyr yn defnyddio asesu yn ddigon effeithiol i gynllunio gweithgareddau sy'n atgyfnerthu ac yn ymestyn dysgu plant.

Mae'r wybodaeth i rieni ar ddiwedd y flwyddyn yn cyfleu datblygiadau'r plant ar draws meysydd y Cyfnod Sylfaen yn briodol ac mae rhieni yn cael cyfle i drafod cynnydd eu plant mewn diwrnod agored yn ystod tymor yr Hydref.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol yn eu lle i gynorthwyo plant i fwyta ac yfed yn iach. Mae'r trefniadau i'w hannog i wneud ymarfer corff yn rheolaidd yn gryfder yn y lleoliad ac mae'n effeithio'n gadarnhaol ar safonau'r plant. Trwy hyn mae'r plant yn datblygu medrau cydbwyso ac yn datblygu hyder a chryfder corfforol yn dda iawn. Mae'r gweithgaredd golchi dannedd dyddiol yn cyfrannu'n effeithiol at gynyddu dealltwriaeth plant o bwysigrwydd gwneud hyn.

Mae profiadau dysgu yn annog datblygiad moesol, diwylliannol a chymdeithasol y plant yn gymwys. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio amser byrbryd i annog plant i ddysgu cyd-fwyta, rhannu ac aros eu tro. O ganlyniad, mae llawer o blant yn datblygu dealltwriaeth briodol o sut i uniaethu â dyheadau pobl eraill. Mae dathlu Gŵyl Ddewi a mynychu gweithgareddau gan Goleg Ceredigion yn y ganolfan hamdden leol yn cyfrannu at ddatblygu datblygiad diwylliannol a chymdeithasol y plant. Serch hynny, nid yw'r ymarferwyr yn gwneud defnydd digon effeithiol o amser cylch i annog y plant i wrando ar eraill nac i siarad a rhannu teimladau. Prin hefyd yw'r cyfleoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol y plant trwy roi cyfleoedd iddynt ryfeddu ar y byd o'u cwmpas.

Mae'r lleoliad yn dechrau annog plant i feddwl am gynaliadwyedd. Er enghraifft, mae plant yn ailgylchu croen ffrwythau a phapur yn gyson. Serch hynny, prin iawn yw'r cyfleoedd i blant ddysgu am ddiwylliannau eraill.

Mae ymarferwyr yn arddangos gofal da o'r plant wrth iddynt gyrraedd a chael eu casglu. Mae gan y lleoliad ystod briodol o bolisïau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ond nid ydynt wedi eu derbyn yn ffurfiol gan y pwyllgor rheoli. Nid yw'r polisi ar gyfer amddiffyn plant wedi ei ddiweddaru ers sawl blwyddyn. Nid yw'r ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant diweddar ar ddiogelu plant ac, o ganlyniad, nid ydynt yn gallu esbonio'n gywir pa gamau y byddent yn eu cymryd wrth ymateb i achosion diogelu plant. Nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder difrifol.

Nid yw'r prosesau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon cadarn gan nad yw'r lleoliad yn cynllunio'n briodol i gwrdd ag anghenion penodol y plant. Nid oes gan y lleoliad gynlluniau unigol ar gyfer y plant hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Anfoddhaol**

Mae'r lleoliad yn llwyddo i greu ethos cynnes, croesawgar a chynhwysol. Caiff bechgyn a merched yr un cyfle i fanteisio ar adnoddau a gweithgareddau ac mae ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae teg yn briodol. Nid oes cyfleoedd i ddathlu amrywiaeth ac, o ganlyniad, mae ymarferwyr yn colli cyfleoedd i gynorthwyo plant i ddatblygu agweddau goddefgar.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau priodol i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae arddangosfeydd yn dathlu gwaith y plant yn llwyddiannus ac mae murluniau lliwgar yn ennyn diddordeb y plant, er enghraifft yn y thema ar anifeiliaid. Mae gan y lleoliad ystod o adnoddau pwrpasol ar gyfer symbylu plant ond ni ddefnyddir y rhain yn ddigon da i ateb anghenion pob plentyn. Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd diddorol i'r plant chwarae'n ddychmygus, er enghraifft yn y siop anifeiliaid a'r ardal gwisgo i fyny. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn gwneud defnydd digonol o'r rhain, yn enwedig wrth feithrin a datblygu medrau llafar y plant.

Mae'r lleoliad yn cael ei gynnal yn dda ac mae'r adeilad a'r ardal tu allan yn ddiogel. Serch hynny, mae'r lleoliad yn gwneud defnydd anghyson iawn o'r ardal tu allan ar draws y flwyddyn ac nid yw ymarferwyr, er enghraifft yn cynnig digon o gyfleoedd i blant arddio a thyfu pethau gwyllt.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae'r arweinwyr wedi llwyddo i greu awyrgylch cartrefol lle mae'r plant yn hapus, a lle mae ymarferwyr ar y cyfan yn cydweithio'n hwylus. Mae ganddynt weledigaeth sy'n seiliedig ar ddatblygu pob plentyn yn gorfforol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr wedi llwyddo i wireddu'r weledigaeth hon na'i hyrwyddo'n llwyddiannus.

Datblygiad diweddar iawn yw rhannu arweinyddiaeth ymysg ymarferwyr y lleoliad. Mae arweinwyr yn dechrau ar y broses o gydweithio a datblygu medrau rheoli ar y cyd er mwyn ceisio sicrhau cyfleoedd da i'r plant. Nid yw hyn wedi datblygu digon eto gan nad yw'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion y plant yn ddigon da.

Mae'r arweinwyr hefyd yn dechrau sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol. Serch hynny, nid ydynt yn cynnwys yr ymarferwyr yn ddigonol wrth gynllunio. Nid yw eu gallu i osod cyfeiriad strategol ar gyfer y lleoliad wedi datblygu'n ddigonol eto ac maent yn or-ddibynnol ar gefnogaeth gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Yn gyffredinol, nid ydynt yn ymateb yn ddigon sydyn i argymhellion gan asiantaethau ac mae mwyafrif o argymhellion yr arolygiad blaenorol heb eu bodloni.

Nid yw ymarferwyr yn mynychu hyfforddiant yn ddigon cyson er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Mae'r diffyg hyfforddiant yn cael ei adlewyrchu yn y diffyg yn y ddarpariaeth ac mae hyn yn cael effaith wael ar safonau.

Nid oes pwyllgor rheoli ffurfiol i dderbyn adroddiadau cynnydd gan yr arweinwyr ac nid oes trafodaeth ar osod cyfeiriad strategol. Nid yw'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd ac nid oes ganddynt wybodaeth ddigon cadarn am berfformiad y lleoliad. Yn ogystal, nid oes copi ganddynt o gyllideb gyfredol y lleoliad sydd wedi ei archwilio yn ffurfiol.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol megis datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Serch hynny, nid yw'r ffocws hwn wedi cael effaith ddigonol ar y ddarpariaeth.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Nid yw dealltwriaeth yr arweinwyr o'r broses gwella ansawdd yn ddigon da. Er eu bod wedi derbyn cefnogaeth ac arweiniad gan yr awdurdod lleol, mae prosesau'r lleoliad ar gyfer hunanarfarnu yn parhau i fod yn aneffeithiol. Mae hyn yn ofid mawr gan fod yr agwedd hon ar waith y lleoliad yn argymhelliad yn dilyn yr arolygiad blaenorol.

Mae'r broses bresennol yn cynnwys peth cyd-drafod ymysg ymarferwyr yn ogystal â chasglu barn rhieni drwy holiadur. Serch hynny, nid yw'r broses yn ddigon trylwyr. Nid yw'n arwain at greu adroddiad sy'n dangos bod yr arweinwyr yn adnabod cryfderau a gwendidau'r lleoliad yn dda. Mae'r adroddiad presennol yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol gadarn ar safonau'r plant nac ar safon y ddarpariaeth. Nid yw'r adroddiad ychwaith yn adnabod meysydd penodol i'w datblygu yn ddigon da ac nid oes gan y lleoliad gynllun datblygu sy'n nodi blaenoriaethau gwella'r lleoliad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau cefnogol. Mae'r trefniadau pontio gyda'r lleoliad Ti a Fi a'r ysgol gynradd leol yn effeithiol ac yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n gyflym wrth drosglwyddo o un lleoliad i'r llall.

Mae partneriaethau gyda rhieni yn foddhaol. Mae rhieni newydd yn derbyn pecyn gwybodaeth defnyddiol sy'n hwyluso'r cam o'r cartref i'r lleoliad drwy roi gwybodaeth angenrheidiol i rieni. Gwneir defnydd o hysbysfwrdd i rannu gwybodaeth o ddydd i ddydd ac mae rhieni yn derbyn llyfryn ar ddiwedd cyfnod yn y lleoliad sy'n dangos cynnydd eu plentyn. Mae'r lleoliad yn dechrau defnyddio cyfryngau cymdeithasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni am ddigwyddiadau a rhannu gwybodaeth. Ychydig iawn o godi arian mae'r rhieni wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ac mae anhawster i gael rhieni i sefydlu pwyllgor rheoli effeithiol.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau cefnogol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi a cheisio herio'r ymarferwyr trwy ymweliadau cyson ond nid ydynt wedi cael digon o effaith ar y ddarpariaeth na'r arweinyddiaeth.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau addas. Nid ydynt eto yn defnyddio ymarferwyr yn ddigon pwrpasol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac i herio plant yn ddigon da.

Nid yw'r ymarferwyr yn cael mynediad i ystod effeithiol o hyfforddiant addas yn ddigon cyson. Ychydig iawn o ymarferwyr yn unig sydd wedi mynychu hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar wella

gweithdrefnau asesu'r lleoliad. Nid yw pob un o'r ymarferwyr yn hyderus wrth siarad Cymraeg. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu gallu i ddatblygu medrau llafar y plant ac i reoli ymddygiad heriol.

Nid oes gan yr arweinwyr brosesau effeithiol ar gyfer rheoli ac adolygu gwariant. Nid ydynt yn dyrannu cyllid yn briodol i fynd i'r afael â blaenoriaethau.

O ystyried y gwendidau sylweddol yn narpariaeth ac arweinyddiaeth y lleoliad, mae'n darparu gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |